# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa Ddydd Sandy Feet**

**Heol y Gwlith**
**Port Talbot**
**SA12 7HE**

Adroc ieb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/01/2020

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Ddydd Sandy Feet yn darparu gofal dydd llawn i hyd at 27 o blant. Caiff y gofal ei gynnig i blant o oed geni hyd at 12 oed, ac mae’r gwasanaeth ar agor rhwng 6am a 7.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r feithrinfa'n darparu'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Saesneg. Jodie Rees yw’r person cofrestredig a’r person â chyfrifoldeb am y gwasanaeth.

## Crynodeb

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae gan y plant yn y gwasanaeth hwn lais cryf. Maent yn hapus, wedi setlo ac wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol. Mae'r plant yn gallu dilyn eu diddordebau eu hunain ac maent yn cael cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth. Er bod gwelliannau wedi'u gwneud ers yr arolygiad blaenorol, mae angen gwella'r gwiriadau cyn cyflogaeth er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.

**2. Gwelliannau**

Ers yr arolygiad blaenorol, mae'r arweinydd wedi cyflwyno jygiau llai er mwyn galluogi'r plant i arllwys y ddiod o'u dewis yn annibynnol. Mae wedi cyflwyno rhywfaint o adnoddau naturiol fel rhan o'r teganau a'r adnoddau sydd ar gael i'r plant, yn ogystal â defnyddio deunyddiau naturiol er mwyn gwella profiadau chwarae'r plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**3. Gofynion ac argymhellion**

Rydym hefyd wedi gwneud argymhelliad mewn perthynas â'r weithdrefn hylendid ar gyfer golchi dwylo'r babanod a'r asesiadau risg ar gyfer aelodau newydd o'r staff yng nghefn yr adroddiad hwn.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, ac nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn. Felly, nid ydym wedi cyhoeddi na diwygio unrhyw raddau a ddyfarnwyd yn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r plant wedi setlo ac yn hapus ac mae ganddynt lais cryf.

### Ein canfyddiadau

Mae gan y plant lais cryf. Mae ganddynt amrywiaeth eang o ddewis ac mae'r staff yn gwrando ar eu barn/dewisiadau. Roedd y plant yn dewis y teganau a'r adnoddau roeddent am chwarae â nhw, y llyfrau roeddent am eu darllen eu hunain neu am i aelod o'r staff eu darllen iddynt, a'r lliwiau roeddent am eu defnyddio i baentio eu pasta. Pan ofynnodd un plentyn am gael chwarae gyda swigod, cafodd y cynlluniau eu newid ac roedd y plentyn yn gallu dilyn ei ddiddordeb. Roedd gan y plant ryddid i symud o gwmpas yr ystafelloedd a dewis gweithgareddau.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel iawn, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Roedd y plant yn dangos cydberthnasau cadarnhaol â'r aelodau o'r staff, gan fynd atynt am sicrwydd pan oeddent ei angen, a gwelwyd y plant a gyrhaeddodd o'r ysgol yn setlo'n gyflym, gan eistedd wrth y bwrdd i gael cinio.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r plant yn rhyngweithio'n hapus â'i gilydd ac â'r staff. Roedd y plant yn gwenu at y staff yn aml, yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn rhannu eu teganau a'u hadnoddau ag eraill. Roedd un plentyn yn barod ac yn hapus iawn i rannu ei gylch o rubanau er mwyn annog y plant eraill i ymuno â'r gerddoriaeth a'r symudiadau.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu yn fawr iawn. Roedd llawer o'r plant yn gwenu ac yn neidio yn llawn cyffro wrth gymryd rhan yn y gweithgaredd chwythu swigod. Roedd y plant yn canolbwyntio am gyfnod hir o amser ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amser cylch yn llawn brwdfrydedd.

Mae'r plant yn datblygu i fod yn annibynnol yn llwyddiannus. Mae'r plant yn cael amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth, gan gynnwys golchi a sychu dwylo ac arllwys eu diodydd eu hunain, ond roedd cymorth ar gael iddynt os oedd angen.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, ac nid ydym wedi ystyried y thema hon. Felly, nid ydym wedi cyhoeddi na diwygio unrhyw raddau a ddyfarnwyd yn flaenorol.

### Ein canfyddiadau

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, ac nid ydym wedi ystyried y thema hon. Felly, nid ydym wedi cyhoeddi na diwygio unrhyw raddau a ddyfarnwyd yn flaenorol.

### Ein canfyddiadau

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn, felly, nid ydym wedi cyhoeddi na diwygio unrhyw raddau a ddyfarnwyd yn flaenorol. Fodd bynnag, gwnaethom ystyried y materion a godwyd mewn pryder dienw yn ymwneud â chyflogi staff, gan fynd ar drywydd yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad blaenorol. Gwelsom fod yr unigolyn cyfrifol wedi mynd i'r afael â bron pob un o'r argymhellion a wnaed yn yr arolygiad blaenorol, ond mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.

### Ein canfyddiadau

Mae gan yr unigolyn cyfrifol weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth, ac mae'n ei rhannu ag eraill. Mae'n cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol, llawn gwybodaeth, sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn pennu disgwyliadau uchel i'r staff. Mae'n annog y staff i ymgyfarwyddo â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn weithredol ac yn herio perfformiad gwael. Mae'n gosod heriau rheolaidd i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â disgwyliadau'r gwasanaeth. Er enghraifft, mae'r arweinwyr yn cynllunio gweithgareddau er mwyn i'r staff edrych ar feysydd penodol o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, gan gynnwys gofyn cwestiynau am ddiogelwch neu iechyd a diogelwch. Mae'r unigolyn cyfrifol yn defnyddio hyn i lywio sesiynau goruchwylio ac arfarnu'r staff ac i gynllunio ar gyfer datblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol a diwallu anghenion hyfforddi. Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau ei bod yn ymgysylltu ag AGC ac yn ei hysbysu am ddigwyddiadau arwyddocaol. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod yr unigolyn cyfrifol wedi rhoi mesurau ataliol ac asesiadau risg ar waith ar ôl digwyddiad y rhoddwyd gwybod amdano. Gwnaethom hefyd fynd ar drywydd yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad blaenorol. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi prynu jygiau llai er mwyn annog y plant i fod yn fwy annibynnol ac wedi cyflwyno adnoddau naturiol i'w defnyddio yn yr ystafelloedd ac fel rhan o'r gwaith o gynllunio ar gyfer gwella'r dysgu, ac mae'r staff wedi rhoi arferion hylendid ar waith i olchi dwylo'r babanod. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau er mwyn osgoi achosion o groeshalogi.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r unigolyn cyfrifol yn hunanwerthuso'n weithredol. Mae'n gofyn am awgrymiadau gan y plant, eu rhieni/gofalwyr, staff ac ymarferwyr. Mae'n llunio adroddiad blynyddol er mwyn gwerthuso'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud, trafod yr hyn y gellir ei roi ar waith a'r hyn na ellir ei roi ar waith, ac egluro'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Er bod gan yr unigolyn cyfrifol systemau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cyrraedd bron pob un o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau, nid oedd yr holl wiriadau cyn cyflogi ar waith ar gyfer y staff a benodwyd yn ddiweddar. Nid oedd gan yr unigolyn cyfrifol eirda na datganiad meddygol ar gyfer un aelod o'r staff, ac nid oedd ganddi unrhyw eirdaon ar gyfer aelod arall o'r staff. Eglurodd ei bod wedi cael un geirda ar lafar ond nad oedd wedi gwneud cofnod ohono. Er bod gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer pob aelod

o'r staff, roedd tri o'r rhain wedi'u cwblhau ar ôl i'r staff ddechrau yn y gyflogaeth. Eglurodd yr unigolyn cyfrifol fod y staff wedi cwblhau gwiriadau blaenorol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn iddynt ddechrau, ond nad oedd wedi gwneud cofnod o'r rhif tystysgrif blaenorol. Mae'r dyddiadau a gofnodwyd yn cyfeirio at y tystysgrifau a gaiff eu cwblhau'n benodol ar gyfer y gwasanaeth. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym ei bod wedi trafod unrhyw fylchau mewn hanes cyflogaeth, ond nad oedd wedi gwneud cofnod o hyn ar gyfer dau aelod o'r staff. Eglurodd yr unigolyn cyfrifol ei bod yn dilyn prosesau penodol ar gyfer y cyfnod cyn cyflogi. Er enghraifft, mae wedi ceisio cael gafael ar eirdaon ar gyfer y staff ar sawl achlysur drwy negeseuon e-bost, llythyrau ac ymweld â'r cyflogwr blaenorol, ond heb unrhyw lwyddiant. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi cael ei gofnodi. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r unigolyn cyfrifol wedi cadarnhau bod holl ffeiliau'r staff yn cynnwys dau eirda, bod cofnodion o fylchau mewn cyflogaeth, bod gan bob aelod o'r staff ddatganiad meddygol, bod gwybodaeth lawn am wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael, a bod cofnodion ysgrifenedig o'r ymdrechion i gwblhau'r holl wiriadau cyn cyflogi.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn rhoi proses rheoli perfformiad effeithiol ar waith sy'n annog y staff i gwblhau amrywiaeth o hyfforddiant ac yn rhoi cyfleoedd iddynt argymell hyfforddiant. Mae'r staff wedi mynychu sawl cwrs gan gynnwys hylendid bwyd, codi a chario a chymorth cyntaf. Mae'r arweinwyr yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarnu rheolaidd, sy'n cynnwys trafodaethau ar berfformiad, y gwelliannau a'r camau gweithredu sydd eu hangen ac amserlenni. Mae'r arweinwyr yn rhoi gweithdrefn sefydlu addas ar waith ar gyfer pob gwirfoddolwr ac aelod o'r staff. Er bod ganddynt asesiadau risg ar waith ar gyfer pob aelod newydd o'r staff, myfyriwr a gwirfoddolwr, maent yn rhai cyffredinol ac nid ydynt yn nodi risgiau penodol na'r dull o leihau'r risgiau hyn. Eglurodd y staff eu bod yn hapus gyda'r broses sefydlu, eu bod yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth i weithio'n effeithiol, a bod y staff a'r arweinwyr yn eu cefnogi.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Argymhellwn y dylai'r arweinwyr wneud y canlynol:

- gwella'r gweithdrefnau golchi dwylo er mwyn lleihau'r risg o groeshalogi;
- gwella'r asesiadau risg i ddangos sut y caiff aelodau newydd o'r staff, gwirfoddolwyr a myfyrwyr eu goruchwylio'n briodol ar ôl derbyn yr holl wiriadau addasrwydd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol a wnaed yn dilyn pryder dienw a gawsom ynglŷn â chyflogi staff. Gwnaethom hefyd ystyried yr argymhellion a wnaed yn yr arolygiad blaenorol. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 8 Ionawr 2020 am tua phum awr. Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arferion yn ystod yr ymweliad er mwyn nodi tystiolaeth o lesiant y plant;
- cynnal arolygiad gweledol o'r ystafelloedd y mae'r plant yn eu defnyddio;
- siarad â'r staff a'r unigolyn cyfrifol;
- darllen holiadur gan riant;
- darparu adborth dros y ffôn ar 10 Ionawr 2020.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Jodie Rees** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Jodie Rees** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **27** |
| **Ystod oedran y plant** | **6 wythnos – 12 mlwydd oed** |
| **Oriau agor** | **6am i 7.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **1 Ebrill 2019** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **08 Ionawr 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r darparwr yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.**<br>**Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg heb fod angen i rywun ofyn am hynny. Mae hyn yn rhan o'r Polisi Iaith Gymraeg i ddatblygu a chryfhau'r iaith Gymraeg mewn gwasanaethau. Argymhellwn y dylai darparwr y gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes gofal cymdeithasol.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/03/2020

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi